# 2021 Rhif [ ](W/[ ])

# CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

## Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Diwygiad Rhif 2) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Rhoddwyd- - - -* | *** |
| *Cyflwynwyd gerbron Senedd Cymru* | *** |
| *Daw i rym - -* | *** |

Mae Cais wedi'i wneud, o dan baragraff 2 Atodlen 6 i'r Ddeddf Cynllunio(**a**) i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Newid a Dirymu Gorchmynion Cydsyniad Datblygu) 2011(**b**) ar gyfer newidiadau ansylweddol i Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017(**c**).

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl ystyried y cais, yr ymatebion i'r cyhoeddusrwydd a'r ymgynghoriad sy'n ofynnol dan reoliadau 6 a 7 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Newid a Dirymu Gorchmynion Cydsyniad Datblygu) 2011, wedi penderfynu gwneud y newidiadau a gynigir yn y cais.

Yn unol â hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 2(1) a (9) Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio 2008, yn gwneud y Gorchymyn canlynol—

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Diwygiad Rhif 2) 2023 ac mae'n dod i rym ar [ ].

**Diwygio Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017**

**2.** Mae Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Diwygiad) (Cymru) 2021(**d**), ("Gorchymyn 2017"), wedi ei ddiwygio yn unol â'r Gorchymyn hwn.

**Diwygiadau i Atodlen 2 (gofynion)**

**3.** Ar gyfer paragraff 2 Rhan 2 Atodlen 1 i Orchymyn 2017 newidier i "Rhaid i'r datblygiad awdurdodedig ddechrau dim hwyrach na 29 Mawrth 2026.".

*Enw*

(**a**) 2008 c.29. Diwygiwyd paragraff 2 gan baragraff 4 Atodlen 8 i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23), gan baragraffau 1 a 72 Atodlen 13 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p.20), a gan adran 28 Deddf Seilwaith 2015 (p.7).
(**b**) S.I. 2011/2055. Gwnaed diwygiadau perthnasol i'r offeryn hwn gan S.I. 2012/635, S.I. 2013/552, S.I. 2015/760 a S.I. 2017/314
(**c**) S.I. 2017/330, fel y'i cywirwyd gan SI 2017/969
(**d**) S.I. 2021/1284 (W.323)

*Y Gweinidog dros [ ], un o Weinidogion Cymru*
*Dyddiad*

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017, gorchymyn cydsyniad datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008, yn dilyn cais a wnaed yn unol â Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Newid a Dirymu Gorchmynion Caniatâd Datblygu) 2011 am ddiwygiad ansylweddol o dan baragraff 2 Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio 2008. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r terfyn amser ar gyfer dechrau'r datblygiad a awdurdodir gan y Gorchymyn o'i fewn.